# PERTHYN

Hydref 2024 Rhifyn 330



Mi glywais lais yr Iesu'n dweud,
"Goleuni'r byd wyf fi,
tro arnaf d'olwg, tyr y wawr
a dydd a fydd i ti."

# Gair y Gweinidog

Fe ddarllenais erthygl yn ddiweddar ar gryfderau a gwendidau 'Facebook'. I lawer un mae'r cyfrwng hwnnw wedi dod yn rhan naturiol o'u gweithgaredd dyddiol ac yn ffordd effeithiol o rannu a derbyn gwybodaeth. Fel llawer i un arall mae gen innau gyfrif ond anaml, os o gwbl, y byddai'n llwytho gwybodaeth. Er hynny, dwi'n mwynhau darllen cyfraniadau gan eraill a bellach yn aelod o nifer o dudalennau gan gynnwys 'Hen Luniau o Trefor', ble'r oedd fy nhad yn gigydd ac un ar Bentreuchaf, pentref fy magwraeth. Diolch i'r rhai sy'n llwytho gwybodaeth yn gydwybodol ac oherwydd hynny, wedi, ac yn, goleuo'r rhai sy'n edrych a diolch am gyfrwng sy'n galluogi rhywun i ail-gysylltu â hen ffrindiau ac adfer perthynas. Ond mae yna wendidau! Gwyddom am beryglon y cyfryngau cymdeithasol a'r effaith bosibl ar feddyliau a theimladau eraill. Yn ddyddiol mae rhywun yn clywed am achosion ble mae geiriau a sylwadau unigolion eraill wedi arwain at ddiffyg hyder a gwerth a chwestiynau yn ymwneud â'r hunan. Ar ei waethaf, fe all arwain at sefyllfaoedd hynod o drist ac felly'r alwad i agor ein meddyliau i beryglon cyfryngau o'r fath ac i leisio barn.

Ond mae yna bethau eraill hefyd, gwahanol, sy'n gallu bod yn ddinistriol mewn ffyrdd gwahanol. Fe deimlais hynny yr wythnos o'r blaen pan ryddhawyd a rhannu gwybodaeth am gapel sy'n wynebu argyfwng o ganlyniad i'w gyflwr ac amharodrwydd cwmni yswiriant i yswirio'r to. Yr hyn sy'n bositif am yr eitem yw ei bod yn tynnu sylw at realiti sefyllfa addoldai yn y Gymru sydd ohoni, ac yn hanes y capel arbennig yma, eu bod am barhau ac am geisio cartref newydd. Ond yn fy meddwl i, yr hyn oedd yn negyddol am yr eitem oedd yr amseriad. Ar adeg o'r wythnos pan fo meddyliau y lleiafrif ar oedfa ac Ysgol Sul a diwrnod ychydig yn wahanol! Adeg sy'n dwysáu'r realiti yna sy'n wynebu'r cynulleidfaoedd hynny sy'n ceisio byw gydag etifeddiaeth bensaernïol ddoe ac yn ceisio darganfod ffyrdd effeithiol o fod yn gymunedau ffydd a thystiolaethu. 'Does bosibl eu bod yn haeddu gwell, a dim yn fwy na geiriau o anogaeth a straeon am

lwyddiant ac egin newydd y dystiolaeth Gristnogaeth. Rhag bod yn rhy llawdrwm, diolch bod yr eitemau yma yn bodoli ac yn dyst i newyddiaduraeth ddoeth a sensitif. Ond y tro yma fe fethwyd!

Wrth feddwl am hyn, allwn i ddim llai na meddwl am effaith yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru heddiw gydag un addoldy ar ôl y llall yn cau. Peth hollol naturiol bellach yw gweld capel ar werth a ninnau fel aelodau o bwyllgorau yn codi llaw'n ddifeddwl weithiau wrth benderfynu ar batrwm o werthiant. Tu hwnt i ymatebion cymunedau, yn farn adeiladol ac yn hurt weithiau, y sylweddoliad y gall ardaloedd yn ein gwlad fod yn ddi-dystiolaeth yn y dyfodol, ond hefyd y ddealltwriaeth o deimladau pobl. Teimladau y rhai sydd ar ôl, yn cysylltu cerrig milltir eu bywydau gydag addoldy, yn byw gydag atgofion, yn teimlo eu bod wedi methu, yn cael eu rhwygo gan benderfyniadau, yn colli rhan o'u ffydd. Allwn ni ddim dechrau dychmygu effaith hyn i gyd ar feddyliau pobl ffydd.

Geiriau'r Iesu oedd –

> 'Peidiwch ag ofni, fy mhraidd bychan, oherwydd gwelodd eich Tad yn dda roi i chwi'r deyrnas.'

Geiriau tyner, llawn cariad, llawn trugaredd yn sôn am ofal ac am etifeddu bendithion Duw, beth bynnag yr amgylchiadau. Y math o eiriau mae rhywun am eu clywed heddiw a'r math o eiriau sy'n gyfrwng bendith a chysur, yn gynhaliaeth ac yn arweiniad.

Da i ni gofio hynny.

Mwynhewch ddyddiau olaf yr Haf!

Eifion.

# Pedair ras mewn pedair wythnos i gefnogi HAHAV Ceredigion

Mae Deian Creunant yn aelod o fwrdd yr elusen hosbis yn y cartref leol, HAHAV Ceredigion, ac mae'n gobeithio codi arian i helpu'r elusen i ddiogelu a datblygu ei gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Mae am geisio gwneud hynny drwy redeg pedair ras mewn pedair wythnos i helpu i gefnogi a datblygu gwasanaethau hollbwysig y sefydliad.

Erbyn i chi ddarllen y pwt hwn y gobaith yw y bydd wedi cwblhau dwy ras sef hanner marathon Llyn Efyrnwy a ras 10k Dale yn Sir Benfro. Eto i ddod mae hanner marathon Caerdydd ac yn olaf Ras Dau Gopa Aberystwyth.




Fel aelod bwrdd cymharol newydd yn HAHAV Ceredigion, mae Deian yn teimlo bod gwasanaethau'r elusen yn hollbwysig i'r sir,

"Roeddwn bob amser wedi bod yn ymwybodol o waith yr elusen ond yn ystod fy nghyfnod fel aelod o'r bwrdd rwyf wedi gwerthfawrogi'n fwyfwy ehangder y gwasanaethau a gynigir a pha mor werthfawr yw ei chefnogaeth i unigolion ar draws Ceredigion.

Yn anffodus mae'r galw am wasanaethau yn cynyddu'n gyson ac rydym nawr yn wynebu sefyllfa lle mae angen i ni fuddsoddi yn ein hisadeiledd er mwyn i ni allu parhau i ddarparu gwasanaethau hosbis yn y cartref y mae mawr eu hangen.

Rwyf ond yn gobeithio y bydd y ddwy goes 'ma' sy'n prysur fynd yn

hŷn yn gallu fy nghario dros y llinell derfyn."

Bydd yr holl arian a godir yn mynd tuag at ddatblygu Plas Antaron, canolfan yr elusen ar gyrion Aberystwyth fel Canolfan Byw'n Dda ac ehangu gwasanaethau gwirfoddol HAHAV ar draws Ceredigion.

Os hoffech gyfrannu ewch i:
https://hahav.enthuse.com/cf/pedair-ras-mewn-pedair-wythnos-four-in-four neu www.hahav.org.uk
ac os hoffech wirfoddoli gyda HAHAV Ceredigion ffoniwch 01970 611550, neu ar e-bost: admin@hahav.org.uk .

# HAHAV yn diolch

Ar ran HAHAV Ceredigion, hoffwn ddiolch o galon i Gapel y Morfa am ganiatáu i HAHAV adleoli i'r Morlan am ychydig fisoedd tra bod rhan gyntaf y gwaith o adnewyddu Plas Antaron yn digwydd.

Rydym yn arbennig o ddiolchgar i Eifion, pwyllgor rheoli Morlan, a'r blaenoriaid am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad hael a pharod. Ac i chi i gyd am eich amynedd os nad oedd lle ichi barcio yn ôl eich arfer. Byddwch yn falch o glywed bod y gwaith yn mynd yn dda.

Diolch hefyd i bawb a gefnogodd fy nhaith gerdded i yn ystod Mehefin. Roedd y gefnogaeth y tu hwnt i bob disgwyl. Mae cyfle nawr i gefnogi Deian sydd wedi gosod her dipyn anoddach iddo'i hun. Cewch wybod mwy am yr her yn ei eiriau ef! Ac am sut i gyfrannu.

HAHAV
Byw'n dda, nawr a bob amser
Living well when it matters most

POB LWC Deian! Rwyt ti'n siŵr o'i gwneud hi!! Mi wyt ti fel ebol blwydd o'i gymharu â hen begor fel fi!

Gwerfyl

# Cinio Bara a Chaws

Cynhelir Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol yn y Morfa, Stryd Portland, ddydd Llun,
7 Hydref rhwng 12.00 a 1.30pm.

**Croeso cynnes i bawb!**

# Newyddion Ebeneser

**Cofion**
Anfonwn ein dymuniadau gorau a'n cofion at ein holl aelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser gan obeithio eich bod wedi mwynhau ychydig o seibiant dros yr Haf.

Ar ddechrau tymor newydd mae'n braf cael bod yn ôl yn cyd-addoli unwaith bob pythefnos.

**Gwasanaethau**
Dydd Sul, Hydref 6 am 2.15 - Gwasanaeth Cymun
Dydd Sul, Medi 20 am 2.15 -  Gwasanaeth Diolchgarwch

Bydd y gwasanaethau o dan arweiniad ein gweinidog, y Parch Eifion Roberts.

Diolch i Susan Hughes am baratoi'r Cymun bob mis ac i'r aelodau sydd yn gosod y blodau ar gyfer y gwasanaethau.

Diolch yn fawr i Tom Morgan am dorri'r borfa'n rheolaidd a sicrhau bod y tir o flaen y capel yn daclus bob amser.

# Newyddion Capel y Morfa

**Cofion a dymuniadau gorau …**
Anfonwn ein cofion at Robert Haydon-Jones, Islwyn Hughes a Rhiannon Roberts a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar neu yn ystod yr haf ac at ein haelodau sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi gofal. Anfonwn ein cofion at Mona Bowen yng Nghartref Preswyl Henllan ac Ann Griffiths yng Nghartref Annedd Llanybydder.

**Cydymdeimlwn yn ddwys** â'n teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf ac rydym yn cofio amdanynt yn ein gweddïau.

Cydymdeimlwn â David Alun Jones a Jane Jones a'r teulu ar farwolaeth brawd Dai Alun, sef Mr Tom Eurfyl Jones, Tregaron. Cydymdeimlwn â'i briod Menna a'r meibion, Siôn a Dylan. Hefyd â Mary James, Elsbeth Jones a Ieuan Jones o Gapel y Morfa sydd â chysylltiadau agos â'r teulu.

Cydymdeimlwn hefyd â Mark, Johanna, Hans a Ianto Strong ar farwolaeth mam Mark, sef Mrs Gwenda Strong, Gresffordd.

Cydymdeimlwn â Daniel, Gareth a Catrin Rowbotham a'r teulu cyfan ar farwolaeth eu Mamgu, sef Mrs Tegwen Rowbotham.

**Croeso Cynnes**
Mae'r Croeso Cynnes yn cyfarfod bob dydd Mercher o 11.00 - 2.00 o'r gloch yn FESTRI'R MORFA. Mae croeso i unrhyw un sy'n dymuno troi mewn am baned, sgwrs a chawl. Croesewir gwirfoddolwyr newydd hefyd yn ychwanegol at y rhai presennol.

**Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau** …
i Wendy a Terry Jones sydd wedi dathlu eu priodas aur ddiwedd mis Gorffennaf.

Llongyfarchiadau i Jeremy Turner ar dderbyn ei radd doethuriaeth ar sail ei holl waith ym myd y ddrama ar hyd y blynyddoedd. Dymunwn yn dda iddo hefyd ar ei ymddeoliad.

Llongyfachiadau i Owain Schiavone am ennill Hanner Marathon Pumsaint ganol Medi.

**Dymunwn yn dda** ….
I'r ieuenctid sydd yn dechrau pennod newydd yn eu bywyd yn yr ysgol, mewn coleg, mewn gwaith neu wrth wynebu her newydd.

## Cymdeithas Gweddi a Choffi

bore Mawrth am 10.30 o'r gloch yn Festri'r Morfa,
ac ar Zoom am 11.00

## Astudiaeth Ffydd a Phaned

prynhawn Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom

Y tymor hwn byddwn yn dilyn cyfrol Y Canon Ddr Trystan Owain Hughes, *Byw'r Weddi* – Myfyrdodau ar Weddi'r Arglwydd a'u perthnasedd heddiw

Ceir mwy o wybodaeth am y cyfarfodydd gan Eifion Roberts. Mae croeso cynnes i unrhyw un sy'n dymuno ymuno â'r cyfarfodydd yma.

# Y Clwb Sul

Wedi seibiant dros yr haf, mae'n braf cael bod yn ôl yn y Clwb Sul.  Yr wythnos gyntaf cafwyd Helfa Drysor a chwilio am anifeiliaid yn gysylltiedig â'r storiau o'r Beibl a gyflwynwyd y llynedd – cyfle i adolygu a chael hwyl ar yr un pryd.

Thema ein gwasanaeth diolchgarwch fydd Teulu, a phenderfynwyd cyflwyno stori Abraham fel ein stori gyntaf cyn mynd ymlaen at hanes Ruth.  Fel y gwelwch yn y llun, newidiwyd y parasiwt i ffurfio pabell Abraham.

Mae’r criw yr ieuenctid (oedran ysgol uwchradd) yn cyfarfod bob Sul i drafod a rhannu syniadau – dros baned fel arfer - ac mae croeso i unrhyw un yn yr oedran uwchradd i alw mewn ar fore Sul pan mae’n gyfleus.






# Dilyn Cymru
## (Profiadau diweddar Moi Schiavone - a'r teulu!)

Dydd Gwener 6 Medi
2:30pm. Un or pethau gorau am fynd i gemau Cymru yw gadael ysgol yn gynnar, a dyna ni'n eistedd yn y car ger Ysgol Penweddig yn anelu unwaith eto am Gaerdydd a gêm Cymru yn erbyn Twrci.

5:00pm. Roedd y tywydd yn braf iawn yn Aber, ond rydyn ni wedi clywed ar y radio nad ydy hi cystal yng Nghaerdydd ac wrth i ni agosáu at Bort Talbot mae'r awyr yn edrych yn eithaf tywyll.

6:30pm. Bron yna, ond bach yn hwyrach nag y bydden ni fel arfer gan i ni stopio yn Cross Hands ar y ffordd i adael ein bagiau yng ngwesty Travelodge. Rydw i, Now a dad yn rhedeg ym mhencampwriaeth rasys cyfnewid Cymru ym Mhen-bre fory, felly am unwaith does dim angen i ni deithio'r holl ffordd nôl i Aber ar ôl y gêm.

7:00pm. Yr hwyra' mae rhywun yn cyrraedd, yr anodda' yw cael lle i barcio, ond rydyn ni wedi bod yn lwcus o'r diwedd. Rhaid brysio i'r stadiwm i wneud yn siŵr nad ydyn ni'n colli'r timau a'r anthem wrth gwrs – hon ydy gêm gyntaf y rheolwr newydd, Craig Bellamy, felly bydd yn siŵr o gael croeso cynnes gan y dorf.

7:30pm. Pawb yn saff yn eu seddi. Rydyn ni'n eistedd yn yr un lle yn y gornel wrth ochr stand y Canton ers sawl blwyddyn gyda ffrindiau o Gaerfyrddin. Mae'n teimlo'n gartrefol iawn yma erbyn hyn ac mae bob amser yn braf gweld yr un bobl sy'n eistedd yn agos i ni ym mhob gêm. Mae hefyd yn lle perffaith i weld y chwaraewyr gan eu bod nhw'n cynhesu yn y gornel, ac mae criw cyflwyno S4C - Dylan Ebenezer, Malcolm Allen a Gwennan Harries yma hefyd ers cwpl o flynyddoedd. Yn y gornel yma hefyd y bu Dafydd Iwan yn canu adeg y gemau pwysig i gyrraedd Cwpan y Byd 2022.

7:40pm. Mae'r chwaraewyr yn dod i'r cae ac mae'n amser am yr anthemau. Mae'r bloeddio canu ar gyfer Hen Wlad Fy Nhadau mor uchel ag erioed.

7:45pm. y gic gyntaf ar noson gofiadwy arall wrth ddilyn Cymru.

Roedd y profiad yn anhygoel gyda'r dorf yn canu a bloeddio a llawer o gyfleoedd i Gymru. Chwaraeon nhw'n anhygoel yn erbyn tîm a gyrhaeddodd rownd gogynderfynol yr Ewros dros yr haf. Roedd yr hanner cyntaf yn un cyffrous gyda llawer o chwarae gwych, ond dim




digon da i sgorio yn erbyn amddiffyn Twrci. Dechreuodd yr ail hanner yn ddifflach tan tua'r 70 munud wrth i un o ymosodwyr Twrci gael ei ail garden felen a chael ei anfon oddi ar y cae. Mwy a mwy a mwy o gyfleoedd i Gymru ond jyst methu cymryd mantais lawn o un ohonyn nhw. Gorffennodd y gêm yn ddi-sgôr, ond canlyniad da i ddechrau ymgyrch Craig Bellamy yng Nghynghrair y Cenhedloedd…a byddwn ni nôl eto, yn yr un seddi, ar gyfer y gêm nesaf.

Wrth i ni gerdded yn ôl am y car agorodd y nefoedd a daeth y glaw mawr – socad go iawn! Diolch byth nad mai dim ond awr o daith i Cross Hands oedd hi y tro yma a dim y ddwy awr a hanner arferol yn ôl i Aberystwyth!

Ond doedd y glaw ddim yn ddigon i sbwylio'r noson, a phawb yn edrych ymlaen at ddyfodol cyffrous gyda rheolwr newydd y tîm.

# O Gymru i Ghana (hanes fy hen daid)

Er fy mod i wedi'm magu yng ngodre'r Aran, y môr sy'n fy swyno. Does dim yn well gen i nag ymlacio gyda llyfr a gwylio a chlywed y môr. Dwi'n hoffi credu mai'r rheswm am hynny yw bod y môr yn fy ngwaed. Capteiniaid llong oedd fy hynafiaid ar ochr fy mam. Capten llong o Lanallgo/Moelfre oedd fy hen daid, ei frodyr a'u tad cyn hynny. Mae stori fy hen daid yn rhyfeddol. Collodd taid ei dad – Capten Richard Williams pan oedd yn fabi, mewn damwain oddi ar arfordir Affrica.



Ddiwedd Awst 1913 roedd y Capten Richard Williams yn gapten ar y llong SS Bakana, un o longau cwmni Elder Dempster, Lerpwl. Roedd y llong yn dychwelyd o'r Congo yn cludo mahogani, olew a chnau, rwber ac ifori. Ar ôl mynd i drafferthion mewn storm cafodd ei gyrru'n rhy agos at y lan a suddo yn y tywod yn Half Assini sy'n agos at y ffin gyda'r Traeth Ifori. Ceisiwyd cael y llong yn rhydd a daeth dwy long arall i helpu. Cafodd y capten gais gan gapten un o'r llongau yn gofyn iddo fynd ato. Aeth gyda nifer o fechgyn ac asiant y cwmni llongau mewn *surfboat* i gyfeiriad y llong ond dyma don fawr yn taro'r cwch a'i droi. Achubwyd pawb heblaw fy hen daid. Ymhen pedwar diwrnod daethpwyd o hyd i'w gorff tua 3 milltir i ffwrdd. Yn ôl y post mortem nid boddi a wnaeth ond cael ei ladd yn dilyn cracio ei benglog pan gafodd ei daro gan y cwch. Ef oedd y dyn gwyn cyntaf i'w gladdu yn y rhan hon o orllewin Affrica. Derbyniodd Annie, fy hen nain, adroddiad y Pursar, baromedr a chloch y llong. Mae'r gloch yma gen i yn y tŷ a'r baromedr gyda fy modryb.







Bu fy nhaid yn ceisio cael mwy o wybodaeth am flynyddoedd yn ofer. Yna, ym mis Hydref 1978 clywodd sgwrs gan Stephen Griffith, athro a dreuliodd ddwy flynedd yn dysgu yn Ghana. Ymwelodd â Half Assini a gweld sgerbwd y 'Bakana' ar y traeth. Cafodd ei gyfeirio at fedd y capten. Braf oedd gweld bod y bedd yn cael gofal a bod y trigolion lleol yn ei barchu ac yn gosod blodau arno. Mae'n amlwg bod Capten Williams o Gymru yn ddyn pwysig yn eu golwg. Cymaint felly fel bod yna Captain Williams Hotel yn y dref!

Cafodd fy nhad gymorth gan y Capten Gwyn Pari Huws, Caernarfon i leoli Half Assini a chael manylion am y 'Bakana'. Bu'n siarad â John Prifti o Iwerddon a fu'n gynrychiolydd i gwmni Elder Dempster ar arfordir Affrica ac a dynnodd luniau o sgerbwd y llong. Cyfeiriodd hefyd at hunangofiant Kwame Nkrumah, Arlywydd cyntaf Ghana, wedi iddi ennill annibyniaeth ym 1957. Yn y llyfr gwelir llun y llong fel yr oedd ym 1956 ac fe ddywed Nkrumah: *The 'Bakana' had been a landmark for me as I was born in Nkroful near Half Assini. I remember the stories that circulated about the cause of the shipwreck, how the god of the river Ama Axule, wishing to visit his goddess of the neighbouring river Awianialuanu, had planned this disaster in order that he should have a boat at his command... the people still say that they see the lights of a ship – believed to be the 'Bakana' – as she sets out to sea at night and ploughs her way to Awaianialuanu'.*




Bu fy modryb Siân a Dave ei gŵr ar bererindod i Half Assini yn 2010 er cof am taid a'i dad y Capten Richard Williams, ac i ddangos parch y teulu tuag at bobl y dref. Gwelwyd fod y bedd wedi dirywio felly penderfynodd fy rhieni a hwythau dalu i'w drwsio. Ar 28 Awst 2013 daeth gweinidogion, arweinwyr y gymuned ac eraill at y bedd i gynnal gwasanaeth, i glywed hanes y drychineb union ganrif cynt, ac i osod blodau ar y garreg i gofio am y Capten. Pwy ŵyr, efallai y bydd rhywun o blith y genhedlaeth hon neu'r nesaf o'r teulu yn ymweld â Half Assini yn y dyfodol.

Nest Gwilym



# SULIAU HYDREF 2024

**Blaenor y Mis: Rhidian Griffiths**

| | |
|---|---|
| 6 Hydref | Eifion Roberts (Cymun) |
| 13Hydref | Robert Roberts |
| 20 Hydref | Eifion Roberts – Gwasanaeth Diolchgarwch |
| 27 Hydref | John Roberts |

**Blodau – Hydref 2024**

| | |
|---|---|
| 6 Hydref | Valerie Jones |
| 13 Hydref | Diolchgarwch |
| 20 Hydref | Nia a Meurig Royles |
| 27 Hydref | Nia Mair Gruffydd-Williams |



Bore Sul,  20 Hydref am 10 o'r gloch
Gwasanaeth Diolchgarwch o dan ofal Yr Ysgol Sul
**Thema: Teulu**

**Casgliad tuag at *Cymorth Cristnogol***

Derbynnir yn ddiolchgar roddion o wyrddni, blodau neu ffrwythau
ar gyfer yr addurno erbyn 10 o'r gloch fore Sadwrn 19 Hydref
a gwerthfawrogir bob cymorth.

# Cymdeithas y Morfa 2024-25

Daeth tymor yr hydref, tymor yr ailgydio, yr ailddechrau a bwrlwm digwyddiadau cymdeithasol yn cychwyn am flwyddyn arall. Edrychwn ymlaen at raglen o ddigwyddiadau difyr yn y Gymdeithas eleni.

Dyma’r rhaglen o hyn tan y Nadolig:

| | |
|---|---|
| Nos Lun 7 Hydref | **Crefftau’r Bwthyn**<br>Glesni Haf Arfon-Powell |
| Nos Lun 28 Hydref | **Cyfarfod Diolchgarwch**<br>a swper ysgafn yng nghwmni Gareth Jones, yr Hedyn Mwstard, Llanbedr Pont Steffan |
| Nos Lun 11 Tachwedd | **Noson yng nghwmni**<br>Dr Sara Williams a’r Athro Karim Raza |
| Nos Lun 25 Tachwedd | **Llinach hir yw llinach hon –**<br>**Y Deires a’i halawon**<br>Rhiain Bebb |
| **Nos Fawrth** 10 Rhagfyr | **Dathlu’r Nadolig – Y Plygain**<br>yng ngwmni Arfon Gwilym a Sioned Webb |

Bydd pob noson yn cychwyn am 7 o’r gloch yn festri’r capel.

Swyddogion 2024/25:

**Cadeirydd:** Robin Huw Bowen
**Ysgrifennydd:** Nia Mair Gruffydd-Williams
**Trysorydd:** Ifor Davies
**Is-gadeirydd:** Menai Lloyd Williams
**Is-ysgrifennydd:** Sara Down-Roberts

Pris y rhaglen am y flwyddyn yw £5 – ar werth gan Ifor Davies

## Myfyrdod ar 'Ddiwylliant' – anerchiad Robin fel Cadeirydd ar ddechrau tymor newydd Cymdeithas y Morfa

****************************

Ie, dyma ni ar ddechrau tymor unwaith eto, dechrau tymor ein Cymdeithas 'Lenyddol' neu 'Ddiwylliannol'. On'd ydyn ni'n lwcus – beth bynnag am broblemau Cymru heddiw – ein bod yn byw mewn gwlad lle rydym yn cael byw a mwynhau 'Diwylliant'? Pan 'dych chi'n meddwl am gyflwr y byd heddiw, a'r llefydd lle mae pobl yn diodde'n enbyd oherwydd dynion ynfyd rhyfel a thrais, beth basen nhw'n ei roi jest i gael un noson heddychlon a llawen fel hyn? Dylem ystyried Diwylliant yn rhodd, dwi'n teimlo, rhodd gan ein Tad nefol, sydd, o'i harddel a'i pharchu, yn codi Dynoliaeth o bethau bas ac isel, gan ogleisio chwilfrydedd, a chynnig esboniad, hyd yn oed cynnig profiad newydd weithiau, ac yn agor ein llygaid a gobeithio ein meddyliau, i weld a deall pethau mwy goleuedig ein byd.

Yn wir, rydych i gyd yn gwybod amdanaf i fel telynor teithiol yn crwydro'r byd yn rhannu diwylliant Cymru. O wneud, dwi'n gobeithio fy mod yn peri a lledu ewyllys da, a chreu ffrindiau a chysylltiadau newydd, er lles - ddim yn unig i mi, ond i unrhywun sy'n fodlon ymuno. Wir! Beth sy haru'r rhyfelwyr 'ma a'u math?! Pam 'san nhw ddim jest yn mynd ati i ddysgu chwarae telyn?!

Yng ngoleuni hyn, dylen ni fod yn ddiolchgar i'n Tad nefol am y cyfle i gael Diwylliant ac i fedru ei fwynhau. Ac wrth i mi feddwl felly, ces fy atgoffa am gangen arall o'n diwylliant cenedlaethol, yr Eisteddfod, ac yn arbennig Gorsedd Beirdd Ynys Brydain, y mae rhai ohonom â'r fraint o fod yn perthyn iddi.

Fel defosiwn i agor ein tymor newydd heno, meddyliais y buasai Gweddi'r Orsedd yn addas iawn. Beth bynnag am greadigaethau Iolo Morganwg fel ychwanegiadau at ein diwylliant, os nad oedd o ei hun yn ddiffuant efo'r weddi yma, does dim byd i'n rhwystro ni rhag bod.

Felly dyma Weddi'r Orsedd, ac wrth i ni ei hadrodd meddyliwn am yr hyn mae'n ddweud yng nghyd-destun ein gweithgaredd yma yn y Gymdeithas.

**Gweddïwn**

Dyro Dduw dy nawdd,
Ac yn nawdd, nerth,
Ac yn nerth, deall,
Ac yn neall, gwybod,
Ac yng ngwybod, gwybod y cyfiawn,
Ac yng ngwybod y cyfiawn, ei garu,
Ac o garu, caru pob hanfod,
Ac ym mhob hanfod, caru Duw,
Duw a phob daioni.

Amen

**Cyfarfod Cenhadol Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro yng nghapel BWLCHLLAN**

Prynhawn dydd Sadwrn, 5 Hydref 2024 am 2 o'r gloch

**Anerchir gan Sian Howys ar y thema "DEISEB HEDDWCH 1923"**

Bydd casgliad a phaned o de yn dilyn y cyfarfod

Dewch â Caneuon Ffydd

**Croeso cynnes i bawb**
Os ydych yn dymuno cludiant rhowch wybod i Eleri

# Cymdeithas y Morfa fis Medi

Yn syth ar ôl rhoi trefn ar raglen y tymor newydd, roedd rhaid ail drefnu'r cyfarfod cyntaf munud olaf! Roeddem yn disgwyl croesawu’r ysgrifennwr a ‘diwylliant-garwr’ (ei geiriau hi!) Llinos Dafis i’n cyfarch efo’r sgwrs ‘Rôl y Ferch yn y Cymoedd Glo’, ond roedd rhaid canslo, oherwydd problemau iechyd. Piti i ni eich colli, Llinos, ond cewch ddod atom eto.

Agorwyd y cyfarfod gan Robin Bowen (ein cadeirydd newydd), gan groesawu pawb, a chan ddiolch i bwyllgor y llynedd am raglen y tymor diwethaf. Diolchodd hefyd i’r pwyllgor newydd am y rhaglen, ac yn arbennig i’r ysgrifennydd Nia Gruffydd-Williams am ei gwaith diwyd yn cydlynu’r cwbl. Arweiniodd y defosiwn wedyn efo ychydig o fyfyrdod ar ‘Ddiwylliant’ fel rhodd gan Dduw i ni, sydd yn codi Dynoliaeth.



A do! Mi gafwyd sgwrs! Yn ffodus, mi gamodd Arwel ‘Rocet’ i’r bwlch a chynnig sgwrs am hanes a bywyd yr enwog a’r annwyl Phyllis Kinney. Americanes o Michigan yw Phyllis, yr oedd ei thynged (fel yr esboniai Arwel) wedi ei throi yn anochel yn Gymraes Gymraeg ac yn un o enwau pwysig diwylliant Cymru. Mi gyffyrddodd hanesion Arwel amdani galon pawb oedd yn bresennol, rhai ohonom wrth gwrs yn ei adnabod hi (a Merêd) yn bersonol, a gwybod am eu dylanwad eang. Fel teyrnged fach iddi, fe ganon ychydig o ganeuon gwerin oedd yn bwysig i Phyllis, a diolch i Bethan Bryn am gyfeilio. Roedd yn noson hyfryd ac annwyl, a diolch Arwel gennym i gyd am achub y noson, ac am sgwrs mor ddadlennol am un mor annwyl!

Edrychwn ymlaen at groesawu Glesni Haf Arfon-Powell yn ein cyfarfod nesaf (7 Hydref) i sôn am ‘Grefftau’r Bwthyn’.



# Gweddi ar gyfer heddwch yn Gaza (oddi ar wefan Cymorth Cristnogol)



**Gweddïwch am heddwch cyfiawn**

O Dduw, clyw ein gweddïau am heddwch yn y Dwyrain Canol.



Boed i bawb yn y rhanbarth gael eu hamddiffyn,
a'u cadw yn ddiogel rhag niwed.

Gweddïwn y daw'r argyfwng hwn i ben yn awr,
heb golli rhagor o fywyd.

O Dduw, boed i'r rhai sydd wedi eu hanafu a'r trallodus
wybod am dy bresenoldeb iachusol.

Boed i'r pwerus a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ddilyn llwybrau cyfiawnder, trugaredd a heddwch.

Gweddïwn am gydnabyddiaeth o urddas a gwerth i bob bywyd.

Boed i'r ofn trais ddod i ben,

Ac i droi eu cleddyfau'n geibiau, a'u gwaywffyn yn grymanau.

Gofynnwn hyn yn dy enw di, O Dduw,
Amen

***************

Golygyddion y rhifyn hwn yw Gwenan a Nest, a diolch i bawb am eu cyfraniadau. Golygyddion rhifyn Tachwedd fydd Gwerfyl a Menai. Deunydd i Gwerfyl neu Menai gwerfylpj@googlemail.com / menaillwyd@googlemail.com ) **erbyn 18 Hydref 2024** os gwelwch yn dda.